

Aseiad Sgiliau Sector 2010 ADRODDIAD CRYNO'R DU



Adran 1: Cyflwyniad

Dysgu Gydol Oes yn y DU yw'r Cyngor Sgiliau Sector annibynnol a arweinir gan gyflogwyr sy'n gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol pobl sy'n gweithio yn y sector dysgu gydol oes ledled y DU. Mae Dysgu Gydol Oes yn y DU yn cynrychioli gweithlu sy'n cynnwys tuag 1.2 miliwn o bobl sy'n gweithio ym maes dysgu gydol oes yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ac yn llais cyflogwyr yn y sector hwn ar faterion sgiliau. Mae Dysgu Gydol Oes yn y DU yn cynnig y safbwynt strategol ar gyfer cynllunio a datblygu'r gweithlu ac yn dylanwadu ac yn siapiro polisi perthnasol ledled pedair cenedl y DU. Mae'n arwain y gwaith casglu data am y gweithlu ac yn darparu dadansoddiad am nodweddion a thueddiadau'r gweithlu er mwyn llywio cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

Mae pob Cyngor Sgiliau Sector yn cynhyrchu Asesiad Sgiliau Sector (ASS) ar gyfer y DU gyfan yn ogystal ag ar gyfer y pedair cenedl. Mae ASS Dysgu Gydol Oes yn y DU yn adeiladu ar Gam 1 o'r Cytundeb Sgiliau Sector (LLUK 2007) ac yn gweithredu'n 'adroddiad cyflwr y genedl' gan nodi anghenion sgiliau cyflogwyr yn y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol o fewn y tirluniau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Mae'n rhoi gwybodaeth i gyflogwyr am anghenion sgiliau'r dyfodol er mwyn i flaenoriaeth gael ei rhoi i ddatblygu sgiliau am y tymor byr, canolig a hir.

Mae'r ASS yn nodi pedair prif elfen, sef:

- Cymhellion y galw am sgiliau
- Anghenion sgiliau presennol gan gynnwys bylchau a phrinderau sgiliau
- Sgiliau'r dyfodol
- Safbwynt y pedair cenedl

O fewn y cyd-destun hwn, mae Dysgu Gydol Oes yn y DU wedi datblygu Asesiad Sgiliau'r Dysgu Gydol Oes 2010 sydd:

Yn casglu gwybodaeth o bob rhan o bedair cenedl y DU, gan roi sylw penodol i wahaniaethau daearyddol yn y sector a chan amlygu lle mae materion sgiliau penodol i'w gweld

Yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o sgiliau presennol a rhai'r dyfodol a chymhellion y galw am sgiliau yn sectorau Dysgu Gydol Oes yn y DU, sef:

- Arweiniad gyrfa (AG)
- Dysgu a datblygu cymunedol (DDC) – sy'n cynnwys saith elfen dysgu oedolion yn y gymuned; datblygiad cymunedol; addysg gymunedol; addysg ddatblygu; dysgu teuluol; gweithio gyda rhieni, a gwaith ieuenctid
- Addysg bellach (AB) - o fewn yr adroddiad hwn, mae hyn yn canolbwyntio'n benodol ar Golegau AB
- Addysg uwch (AU)
- Llyfrgelloedd, archifdai a gwasanaethau gwybodaeth (LIAGG)
- Dysgu seiliedig ar waith (DSW)

Yn gwneud argymhellion ymarferol, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, am sut orau i ymdrin â'r blaenoriaethau sgiliau o fewn y sector

Section 2: Methodology

Dan arweiniad Fframwaith Gwybodaeth Gyffredin am y Farchnad Lafur Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) (UKCES 2009), mae'r Asesiad o Sgiliau Sector yn dilyn ymagwedd dulliau cymysg sy'n ymgorffori dadansoddi gwybodaeth sylfaenol ac eilaidd, gan gynnwys y llinynnau gwaith canlynol:

Trafodaethau grŵp a chyfweliadau ansoddol

15 semi-structured group discussions covering over 115 employers and stakeholders about the drivers of skills and future skills and what employers may be doing in order to deal with future skills issues.

Arolwg Arolwg sampl, ar sail dyraniad cyfrannol o gyflogwyr ym mhob sector ym mhob cenedl. Dechreuodd yr arolwg, a gynhaliwyd ar wefan Dysgu Gydol Oes yn y DU, yng nghanol Mehefin a chymerwyd ciplun o'r data yng nghanol Medi ar ddibenion ASS 2010, gan dderbyn 396 o ymatebion oddi wrth gyrff ledled y DU. Bydd yr arolwg yn aros ar agor drwy gydol y flwyddyn er mwyn i ddata gronni.

Dadansoddiad eilaidd Cafodd deunydd cyhoeddedig ei ddadansoddi o ffynonellau amrywiol gan gynnwys gwahanol ddogfennau polisi, adroddiadau gan randdeiliaid a'r llywodraeth (o bob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig), adroddiadau arolygiaethau o bob cenedl a phapurau ymchwil ar sgiliau. Mae data wedi cael ei adolygu o'r Arolwg Sgiliau Sector diweddaraf sydd ar gael ym mhob cenedl; Arolwg o'r Llafurlu (ONS 2009), a setiau data sectorol eraill fel cofnodion staff o'r gweithluoedd AB ac AU.

Dadansoddi a dehongli Cafodd yr holl wybodaeth o'r ffynonellau a enwyd ei dadansoddi i ddatblygu themâu sgiliau cyffredin o ran bylchau a phrinderau sgiliau presennol yn ogystal â gofynion sgiliau'r dyfodol.

Yn yr hinsawdd economaidd a gwleidyddol bresennol, mae llawer o bolisiau, ystadegau pennawd a thueddiadau yn newid yn gyflym. Mae'r holl wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg.

Adran 3: Trosolwg o dirlun cyflogaeth a sgiliau'r DU

Mae Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) wedi adrodd ar gynnydd y DU tuag at fod yn un o'r wyth gwlad bennaf yn y byd am sgiliau, swyddi a chynhyrchedd – uchelgais sgiliau o safon orau'r byd (UKCES 2010). Mae'r UKCES yn nodi, er mwyn i'r DU wireddu'r uchelgeisiau hyn, fod rhaid wrth system cyflenwi sgiliau ragorol, sy'n cynnwys y sector.

Er mwyn deall sefyllfa sgiliau'r sector dysgu gydol oes mae'n hanfodol deall sefyllfa sgiliau'r DU gyfan, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw wahaniaethau ar draws y pedair cenedl. Mae'n hanfodol hefyd gweld y darlun rhyngwladol sy'n dangos sut mae'r DU yn cymharu â gwledydd eraill yn Ewrop a gweddill y byd.

3.1 Cynhyrchedd

Y DU yw'r chweched economi fwyaf yn y byd a'r bedwaredd fwyaf yn y Sefydliad dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd (tu ôl i UDA, Siapan a'r Almaen). Yn y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf effaith yr arafu economaidd, mae'r DU wedi mwynhau twf cadarn yn gyffredinol, ar gyfartaledd rhyw dri y cant y flwyddyn (UKCES 2010).

Mae'r DU yn dod ar safle 11 allan o 30 gwlad yr OECD o ran cynhyrchedd, a fesurir gan Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) am bob awr sy'n cael ei weithio. Mae hyn tu allan i chwarter uchaf perfformiad yr OECD.

3.2 Y gyfradd gyflogaeth a Gwerth Gros a Ychwanegir (GVA)

Gweithlu'r DU ar draws pob sector oedd ychydig dros 29.1 miliwn o bobl rhwng Mai a Gorffennaf 2010 (ONS 2010). Yn ystod y cyfnod hwn, y gyfradd gyflogaeth i'r boblogaeth oedran gweithio (rhwng 16 a 64 oed) oedd 70.7 y cant (ibid).

Gwerth Gros a Ychwanegir (GVA) y pen yw'r mesur safonol o lwyddiant a ffyniant economaidd rhanbarthol ac fe'i mynegir fel mynegai a gyfrifir ar werth y DU o 100. Roedd amrywiaethau cenedlaethol o GVA yn 2008 yn amrywio rhwng 74.3 yng Nghymru a 102.4 yn Lloegr (gweler y tabl isod).

Mynegai GVA yn y pedair cenedl:

Y Deyrnas Unedig	100
Lloegr	102.4
Gogledd Iwerddon	78.9
Yr Alban	97.9
Cymru	74.3

Source: UKCES 2010

3.3 Sgiliau

Mae data'n cael ei gasglu gan yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr ym mhob cenedl er mwyn deall y sefyllfa o ran recriwtio a sgiliau am bob sector. Mae'r tabl sy'n dilyn yn crynhoi data mewn perthynas â swyddi gwag, swyddi gwag anodd eu llenwi, swyddi gwag prinder sgiliau, a bylchau sgiliau a wynebwr gan bob cyflogwr yn y pedair cenedl.

Cymhariaeth o swyddi gwag a sgiliau yn y pedair cenedl

	Swyddi gwag fel canran o'r cyfanswm a gyflogir	Swyddi gwag Anodd eu llenwi fel canran o'r cyfanswm a gyflogir	Swyddi gwag Prinder Sgiliau fel canran o'r cyfanswm a gyflogir	Canran o gyflogwyr sy'n adrodd bylchau sgiliau	Bylchau sgiliau fel canran o'r cyfanswm a gyflogir
Lloegr	1.7	0.4	0.3	19	7
Gogledd Iwerddon	2.4	0.7	0.4	14	8
Yr Alban	3.1	1.6	0.7	20	8
Cymru	3.5	1.2	0.5	18	6

Ffynonellau: Lloegr, Arolwg Cenedlaethol Sgiliau Cyflogwyr 2009; Gogledd Iwerddon, Arolwg Monitro Sgiliau 2009; Yr Alban, Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yr Alban 2008; Cymru, Sgiliau Dyfodol Cymru 2005

Fel a welir yn y tabl uchod, dim ond lleiafrif o gyflogwyr ar draws pob sector sy'n adrodd bod ganddynt fylchau sgiliau ac nid yw'r gyfran o'r gweithlu â bylchau sgiliau yn amrywio'n fawr iawn ar draws y pedair cenedl. Adroddir bylchau sgiliau yn llawer amlach na phrinderau sgiliau, er bod cyflogwyr yn tueddu i adrodd effaith negyddol fwy o brinderau sgiliau. Y goblygiad yw y byddai'n well gan gyflogwyr gael unigolyn â bylchau sgiliau mewn swydd benodol, na'r swydd yn aros yn wag.

3.4 Qualifications

Yn ôl data o'r Sefydliad Dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD 2009), mae gan 36.5 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio yn y DU sgiliau canolradd (QCF Lefel 2-3). Mae hyn yn gosod y DU ar safle 21 yn y tabl sgiliau rhyngwladol allan o 30 gwlad yr OECD, o flaen Gwlad Belg, Iwerddon, Awstralia a Seland Newydd. Yn achos sgiliau lefel uchel (QCF Lefel 4-8), mae gan y DU 31.8 y cant wedi eu cymhwysu i'r lefel honno, sy'n gosod y DU yn 12fed yn y sefyllfa sgiliau ryngwladol, o flaen Sweden, Ffrainc, yr Almaen a'r Eidal.

Adroddodd ymchwil ddiweddar gan UKCES am gynnydd ar draws y pedair cenedl tuag at uchelgeisiau 2020 o ran cymwysterau (UKCES 2010) y byddai targedau S/NVQ Lefel 4 yn cael eu cyflawni:

Cymwysterau'r DU – cyrhaeddiad presennol a'r rhagamcaniad 2008-2020 (Ambition 2020)

Lefelau cymhwyster (S/ NVQ)	Canran o'r gweithlu ar y lefel gymhwyster yn 2008	Canran darged o'r gweithlu i fod ar y lefel gymhwyster	Cyflawniad a ragwelir am ganran o'r gweithlu i fod ar y lefel gymhwyster	Bwlch
Lefel 4+	31%	Codiad i 40%	42%	Uwchlaw'r targed (gan 2 bwynt %)
Lefel 3	20%	Codiad i 28%	19%	Islaw'r targed (gan 9 pwynt %)
Lefel 2	20%	Codiad i 22%	20%	Islaw'r targed (gan 2 pwynt %)
Islaw Lefel 2	18%	Lleihad i 6%	14%	Islaw'r targed (gan 8 pwynt %)
Dim cymwysterau	11%	Lleihad i 4%	5%	Islaw'r targed (gan 1 pwynt %)

Ffynhonnell: UKCES 2010

Adran 4: Proffil o'r sector dysgu gydol oes

Mae'r sector dysgu gydol oes yn darparu cyflogaeth i fwy nag 1.2 miliwn o bobl yn y DU, gyda thua 53,000 o gyflogwyr yn y sector yn cyfrannu at economïau lleol, yn ogystal â bodloni anghenion dysgu ad sgiliau miliynau o bobl ledled y DU.

Nifer y cyflogwyr yn y sector dysgu gydol oes ar draws y pedair cenedl

	AG	DDC (gan gynnwys YW)	AB	AU	LLAGG	DSW	Cyfanswm
DU	624	50,004	437	167	1,083	2,096	54,411
Lloegr	508	41,568	365	131	869	1,515	44,956
Gogledd Iwerddon	12	1,000	6	5	34	110	1,167
Yr Alban	64	5,019	43	20	126	389	5,661
Cymru	40	2,417	23	11	54	82	2,627

Ffynhonnell: SIR 2008/09 Dysgu Gydol oes yn y DU; Universities UK; astudiaeth proffil archifdai LLUK 2008; amcangyfrifon LLUK a rhanddeiliaid.

Nifer y cyflogwyr yn y sector dysgu gydol oes ar draws y DU

	AG	DDC (gan gynnwys YW)	AB	AU	LLAGG	DSW	ESA	Cyfanswm
DU	17,599	417,955	305,243	382,275	64,493	41,525	50,654	1,279,744
Lloegr	14,107	273,073	268,310	314,805	56,631	30,000	43,277	1,000,203
Gogledd Iwerddon	210	26,724	6,357	7,595	1,059	1,625	892	44,462
Yr Alban	2,019	61,879	21,748	39,780	5,434	6,900	5,165	142,925
Cymru	1,263	56,280	13,565	20,095	2,089	3,000	1,321	97,612

Ffynhonnell: LFS 2009; SIR 2008/09 LLUK; cofnod staff SFC am golegau'r Alban 2008/09; SIR 2008/09 LICC; cofnod staff HESA am 2008/09; Libraries NI; arolwg archifdai LLUK 2008; amcangyfrifon rhanddeiliaid.

Mae nodweddion y gweithlu dysgu gydol oes yn cynnwys rhyw, ethnigrwydd, amrywiaeth a phroffiliau cymwysterau, yn ogystal â phatrymau gweithio a lefelau galwedigaethol.

Mae rhyw 61 y cant o staff sy'n gweithio yn y sector dysgu gydol ledled y DU yn fenyw ac mae 39 y cant yn wryw. Ychydig o amrywiaeth sydd ar draws y pedair cenedl: yn Lloegr, 61 y cant o'r gweithlu sy'n fenyw; yng Ngogledd Iwerddon, 65 y cant; yn yr Alban 62 y cant ac yng Nghymru, 63 y cant.

Mae 50 y cant o'r gweithlu dysgu gydol oes ledled y DU yn 45 oed ac yn hwn, tra bod 26 y cant yn unig o dan 35 oed. Nid yw' proffil oedran yn amrywio'n sylweddol ar draws y pedair cenedl.

Mae 93 y cant o'r gweithlu ar draws y sector dysgu gydol oes cyfan yn wyn. Yn gyffredinol, mae canran y staff sy'n dod o grwpiau Du ac Ethnig Lleiafrifol (BME) yn amrywio ymhlith sectorau, rhwng rhyw bump y cant mewn gweithgareddau cefnogi addysg i ryw naw y cant mewn LLAGG ac addysg uwch. Mae rhywfaint o amrywiaeth ar draws y pedair cenedl: yn Lloegr, ychydig dros wyth y cant o'r gweithlu sy'n dod o grwpiau BME; yn yr Alban, tua thri y cant ac yng Nghymru, tua dau y cant. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfansymiau'r gweithlu yn rhy isel i adrodd y proffil ethnigrwydd yn fanwl-gywir.

Mae gan 15 y cant o'r gweithlu dysgu gydol oes ledled y DU anabledd. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ffigur am y gweithlu ar draws pob sector yn y DU (13 y cant). Mae rhywfaint o amrywiaeth ar draws y pedair cenedl: yn Lloegr, mae gan 15 y cant o'r gweithlu anabledd; yn yr Alban, 12 y cant ac yng Nghymru, 13 y cant. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfansymiau'r gweithlu yn rhy isel i adrodd yn fanwl-gywir am anabledd.

Mae rhyw 69 y cant o staff yn y sector dysgu gydol oes ledled y DU yn gweithio amser llawn ac mae 31 y cant yn gweithio rhan amser. Mae'r cyfartaledd hwn yn debyg i'r ffigur ym mhob un o'r pedair cenedl.

Mae mwy na hanner y gweithlu dysgu gydol oes y DU yn cael ei gyflogi mewn galwedigaethau proffesiynol, sy'n cynnwys darlithwyr mewn addysg bellach ac uwch; gweithwyr ieuencid proffesiynol; llyfrgellwyr ac archifyddion, ac ymgynghorwyr hyfforddi ymhlith eraill. Mae rhyw 12 y cant mewn galwedigaethau proffesiynol a technegol cysylltiol sy'n cynnwys gweithwyr ieuencid a chymunedol; staff cymorth dysgu; hyfforddwyr AU; cynorthwywyr llyfrgell ac archif, a swyddogion recriwtio ymhlith eraill. Mae'r proffil yn debyg yn gyffredinol i'r sector dysgu gydol oes ar draws y pedair cenedl.

At ei gilydd, mae'r gweithlu dysgu gydol oes y DU yn weithlu â chymwysterau uchel, gyda 69 y cant o staff wedi cymhwyso i lefel 4 S/NVQ neu'n uwch. Mae rhywfaint o amrywiaeth ar draws y pedair cenedl: yn Lloegr, 69 y cant o'r gweithlu sydd wedi cymhwyso i'r lefel hon; yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, tua 73 y cant ac yng Nghymru, tua 75 y cant.

Adran 5: Beth sy'n Gyrru'r Galw am Sgiliau?

Mae'r galw am sgiliau yn cael ei yrru gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys newidiadau economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol. Ers cyhoeddi Asesiad Sgiliau Sector 2009, rhai o gymhellion pennaf newid yn y sector dysgu gydol oes (ac yn wir yn y farchnad lafur yn gyffredinol) fu creu Llywodraeth Glymblaid newydd yn San Steffan ac economi a gafodd ei bwrw gan y dirwasgiad. Ar ben hynny, wrth i Lywodraeth y Glymblaid yn San Steffan weithredu ei pholisiau am wariant cyhoeddus is a phob gweinyddiaeth ddatganoledig adolygu ei gwariant, mae llawer o ffactorau sy'n anhysbys. Ond yr hyn sy'n sicr yw bod newid yn anochel – ym maes polisi, yr hinsawdd economaidd a'r gymdeithas – a bydd gan yr holl arbedion hyn effaith ar y galw am sgiliau gweithlu'r DU yn ei gryswth, yn ogystal ag yn y sector dysgu gydol oes.

5.1 Cymhellion economaidd

Gwariant is: Ym mis Mai 2010, yn fuan ar ôl ei chreu, manylodd Llywodraeth y Glymblaid yn San Steffan ar y galw am gamau brys i gwtogi diffyg cyllidol y DU. Yn gyfan gwbl, mae Llywodraeth y DU yn torri £81 biliwn o wariant cyhoeddus a fydd yn lleihau maint gwariant y Llywodraeth ar draws y sector dysgu gydol oes cyfan ac yn cael effaith sylweddol ar lefelau cyllido ar draws y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Globaleiddio: Bydd gan integreiddio cynyddol addysg ar draws Ewrop ("Marchnad Ewropeaidd Sengl mewn Addysg") a'r angen cynyddol i fanteisio ar y farchnad ryngwladol oblygiadau ar sgiliau staff. Wrth i sefydliadau annog dysgwyr o dramor i astudio yn y DU, bydd ar staff angen sgiliau sy'n caniatáu iddynt gefnogi dysgwyr a chwsmeriaid o gefndiroedd a gwledydd amrywiol.

5.2 Cymhellion gwleidyddol

Un o gymhellion pennaf y galw am sgiliau yn y sector dysgu gydol oes yw polisi'r Llywodraeth. Yn y DU, mae polisiau sgiliau yn gyfrifoldeb pob un o'r pedair cenedl.

Skills strategy for England: Skills for Sustainable Growth (BIS 2010), sy'n disodli'r strategaeth Sgiliau ar gyfer Twf (BIS 2009), sy'n gosod y cyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer y sector dysgu gydol oes yn Lloegr. Nod y strategaeth yw symleiddio'r tirlun sgiliau a grymuso unigolion i arfer dewis fel defnyddwyr dros y sgiliau maent am eu meithrin.

Mae prentisiaethau yn ganolog i'r strategaeth. Mae nifer y Prentisiaethau ar fin cynyddu, a bydd y llwybrau cynnydd o Brentisiaethau Lefel 3 i Lefel 4 ac addysg uwch yn gliriach. Ochr yn ochr â hyn bydd system ehangach a mwy hyblyg o gymwysterau galwedigaethol ac arian neilltuol ar gyfer dysgu oedolion a chymunedol anffurfiol. Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddi mewn hyfforddiant gan gyflogwyr ac unigolion.

Strategaeth sgiliau ar gyfer Gogledd Iwerddon: Y ddwy brif ddogfen o'r Adran Cyflogaeth a Dysgu (DEL NI), Success Through Skills (DEL NI 2006) a Success Through Skills Progress Report (DEL NI 2007), sy'n pennu'r weledigaeth ar gyfer y strategaeth sgiliau a'i chyfraniad at gynhyrchedd a chystadleurwydd Gogledd Iwerddon

yn yr economi fyd-eang. Y weledigaeth yw bod economi Gogledd Iwerddon, erbyn 2015, yn hynod gystadleuol yn fyd-eang. Mae'r Adran Cyflogaeth a Dysgu yn ymgynghori ar Strategaeth Sgiliau ddiwygiedig ar gyfer Gogledd Iwerddon - Success through Skills 2, a fydd yn gosod y strategaeth fwaol ar gyfer datblygu sgiliau yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y degawd nesaf.

Strategaeth sgiliau ar gyfer yr Alban: Y polisi bwaol sy'n effeithio ar y sector dysgu gydol oes yn yr Alban yw Skills for Scotland: A Lifelong Skills Strategy (Llywodraeth yr Alban 2007), a osododd gynllun Llywodraeth yr Alban i ddatblygu system dysgu gydol oes gydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ond sydd hefyd yn ymateb i anghenion cyflogwyr. Gofynnodd y ddogfen bolisi allweddol hon i ddarparwyr dysgu a hyfforddiant gymryd camau penodol, gan gynnwys yr angen i ddarparwyr ystyried eu hun yn rhan o un system sy'n ceisio helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau mae arnynt eu hangen, lle mai pennu, integreiddio a gweithio gyda darparwyr eraill yw'r norm.

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban Skills for Scotland: Accelerating the Recovery and Increasing Sustainable Economic Growth (Llywodraeth yr Alban 2010), a gydnabu'r cynnydd a wnaed ers 2007 ac a nododd sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu newid safle eu polisi sgiliau er mwyn cyflymu adferiad economaidd a gwireddu eu dyheadau economaidd hirdymor ar gyfer yr Alban.

Strategaeth sgiliau i Gymru: mae Sgiliau sy'n gweithio i Gymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008) yn strategaeth sgiliau a chyflogaeth ac yn gynllun gweithredu sy'n adeiladu ar ac yn disodli'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth a gyhoeddwyd yn 2005. Mae'r strategaeth yn cynnig ymateb i Adolygiad Leitch o Sgiliau yn y DU a'r adolygiad annibynnol o genhadaeth a diben addysg bellach yng Nghymru. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cynnwys: ymagweddu newydd at ariannu; gwasanaeth cymorth sgiliau a busnes sy'n ymateb yn well i'r galw; gwasanaethau sgiliau a chyflogaeth integredig a gyflwynir drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a gwednewid y rhwydwaith dysgu. Cafodd y ddogfen ei chynhyrchu cyn y dirwasgiad ac mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Ac eithrio'r prif strategaethau sgiliau, mae amrywiol bolisiau, deddfwriaeth a rheoliadau penodol eraill (yn rhai newydd a rhai cyfredol) sy'n effeithio ar y sector dysgu gydol oes, yn enwedig i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau gwaith partneriaeth a chydweithredol a nodwyd a ffyrdd newydd o gyflwyno dysgu er mwyn ehangu cyfranogiad.

5.3 Cymhellion cymdeithasol

Newidiadau demograffaid: Gyda'r newid sydd ar y gweill i ddileu'r oedran ymddeol diodyn a chodi'r oedran pan delir pensiwn y wladwriaeth, bydd mwy o bobl yn y gweithlu gweithgar am gyfnod hwy. Byd ar y gweithlu hwn sy'n heneiddio angen sgiliau i gystadlu mewn marchnad lafur sy'n newid yn gyflym ac i gyfrannu ati. Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu nad yw cyflogwyr ledled y DU wedi paratoi'n ddigonol am yr ystyriaethau a godir gan y gweithlu sy'n heneiddio, a hynny er gwaethaf y newidiadau sydd ar ddod a'r ffaith y bydd traean o weithlu'r DU dros 50 oed erbyn 2020 (CMI a CIPD 2010). Mae ystyriaeth gysylltiedig yn ymwneud â sgiliau wedi ymddeol i'r sawl sy'n dymuno parhau i weithio neu wirfoddoli, efallai mewn maes neu fasnach wahanol. Mae hyn yn debyg o arwain at nifer uwch o oedolion hŷn yn manteisio ar ddarpariaeth ddysgu.

Mudo o'r tu allan: Yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol yn symudiad pobl rhwng gwledydd, a hynny o fewn Ewrop, ac ar raddfa fyd-eang. Bydd mudo i'r DU o'r tu allan yn arwain at boblogaeth fwyfwy amrywiol, ac mae gan y sector dysgu gydol oes rôl wrth helpu mudwyr i ddysgu'r iaith lle bo angen, i integreiddio i'w cymunedau newydd ac i ennill sgiliau a gwybodaeth ddiwylliannol er mwyn chwarae rhan gynhyrchol yng nghymdeithas y DU. Hefyd mae yna rôl i'r sector wrth helpu'r cymunedau hynny i groesawu ac addasu i'w haelodau newydd (NIACE 2009).

Bydd ar unrhyw un sy'n cyflwyno addysg a gwybodaeth i boblogaeth mor amrywiol angen sgiliau i oresgyn ystyriaethau allgau cymdeithasol, yn ogystal â gwybodaeth a sensitifrwydd diwylliannol fel bod y dysgu a'r wybodaeth yn cael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn briodol.

Nifer cynyddol o wirfoddolwyr yn y gweithlu: Yn sgil agenda Llywodraeth y Glymblaid am 'Gymdeithas Fawr' (Swyddfa'r Cabinet 2010) bydd newid yng nghyfansoddiad y gweithlu gyda gwirfoddolwyr yn chwarae rhan fwy. Yn ôl adroddiadau o'r pedair cenedl mae niferoedd uwch o wirfoddolwyr i'w gweld eisoes ynghyd â niferoedd uwch o gyfranogwyr a dysgwyr.

Dwyieithrwydd: Yng Nghymru, un o'r cymhellion cymdeithasol pwysicaf yw'r galw i greu Cymru Ddwyieithog. Yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf, bu codiad yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae'r ystadegau cyffredinol i Gymru yn dangos ym mis Ionawr 2009, bod 99.8 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn dysgu Cymraeg naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith (Ystadegau Cymru 2009), sy'n awgrymu cynnydd yn y galw am sgiliau Cymraeg. Hefyd mae ewyllys gryf i sicrhau triniaeth gyfartal i'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae Llywodraeth yr Alban yn hybu Gaeleg yr Alban ac yn ysgogi'r galw am sgiliau iaith Gaeleg fel rhan gynhenid o dreftadaeth, hunaniaeth genedlaethol a bywyd diwylliannol cyfredol yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno strwythurau a mentrau i sicrhau bod gan Aelg ddyfodol cynaliadwy yn yr Alban.

5.4 Cymhellion technolegol

Gyda thechnolegau electronig newydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd, bydd ar y gweithlu angen sgiliau perthnasol i ddefnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol er mwyn helpu i gyflwyno profiadau dysgu creadigol ac ysbrydoledig. Bydd angen i'r gweithlu fod yn hyblyg i ymaddasu a dysgu sut i ddefnyddio adnoddau a llwyfannau dysgu digidol er mwyn cyflwyno e-ddysgu, dysgu o bell a dysgu cyfunol mewn modd sy'n ennyn diddordeb ac yn symbylu dysgwyr o gefndiroedd amrywiol.

5.5 Cymhellion amgylcheddol

Mae Llywodraethau San Steffan a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cadarnhau bod yr agenda werdd yn gymhelliant allweddol a bod ganddi'r potensial i effeithio ar y gweithlu dysgu gydol oes. Y ddwy brif effaith fydd y bydd angen i staff gyflwyno'r rheng flaen uwchraddio eu sgiliau yng nghymwysiaidau technoleg werdd er mwyn cyflwyno darpariaeth berthnasol a chyfoes ac y bydd ar yr holl staff angen gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gynladwyedd amgylcheddol.

5.6 Casgliadau

Wrth i wariant cyhoeddus wynebu crebachu, bydd angen defnydd mwy effeithlon ar adnoddau materol a dynol. Bydd angen gwneud mwy drwy gydweithrediad effeithiol o fewn a'r tu allan i'r sector. Dylai ffyrdd newydd o weithio i gyflwyno dysgu a gwybodaeth gael eu cyflwyno. Bydd angen cynllunio ac arweinyddiaeth strategol ar gyfer yr holl newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod sefydliadau, rheolwyr a'r gweithlu cyfan yn barod i weithio'n gystadleuol mewn byd lle mae arian cyhoeddus yn gyfyngedig ac mae technoleg yn cymryd camau breision.

Section 6: Current Skills Needs

Dengys y tablau isod nifer a dwysedd yr angen am sgiliau yn y pedair cenedl.

Nifer swyddi gwag, prinderau sgiliau a bylchau sgiliau

	Canran o gyflogwyr dysgu gydol oes sy'n adrodd swyddi gwag	Canran o gyflogwyr dysgu gydol oes sy'n adrodd swyddi gwag anodd eu llenwi	Canran o gyflogwyr dysgu gydol oes sy'n adrodd swyddi gwag prinder sgiliau
Lloegr	24	5	4
Gogledd Iwerddon	27	4	DdG
Yr Alban	26*	DdG	DdG
Cymru	24	6	4

Dwysedd prinderau sgiliau a bylchau sgiliau


	Swyddi gwag anodd eu llenwi fel canran o'r cyfanswm yng nghyflogaeth dysgu gydol oes	Swyddi gwag prinder sgiliau fel canran o'r cyfanswm yng nghyflogaeth dysgu gydol oes	Swyddi gwag prinder sgiliau fel canran o'r swyddi gwag anodd eu llenwi mewn dysgu gydol oes
Lloegr	0.2	0.2	76
Gogledd Iwerddon	0.4	0.4	92
Yr Alban	0.5	0.3*	51*
Cymru	0.4	DdG	DdG

Gogledd Iwerddon, Arolwg Monitro Sgiliau 2009; Yr Alban, Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yr Alban 2008 *rhaid trin y data gyda gofal, gan nad yw'n gwbl gadarn yn ôl meini prawf Futureskills Scotland ei hun; Cymru, Sgiliau Dyfodol Cymru 2005

6.1 Recriwtio a phrinderau sgiliau

Yn ôl yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr ym mhob un o'r pedair cenedl, adroddwyd swyddi gwag gan rhwng 24 a 27 y cant o gyflogwyr dysgu gydol oes ar draws y DU. Adroddodd rhwng pedwar a chwech y cant o gyflogwyr fod rhai swyddi gwag yn anodd eu llenwi, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn swyddi gwag prinder sgiliau.

Prinderau sgiliau a nodwyd drwy arolwg ASS 2009 LLUK



Ffynhonnell: Arolwg ASS Dysgu Gydol Oes yn y DU 2010, sylfaen 374 (Enghraifft: adroddodd 25.7 y cant o 374 o gyflogwyr fod "ennyn diddordeb a datblygu'r gymuned" yn sgil yr oedd ei angen ymhlith ymgeiswyr)

6.2 Bylchau sgiliau


Yn ôl y data o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr ar draws y pedair cenedl, mae'r mwyafrif o gyflogwyr yn y sector dysgu gydol oes yn ystyried eu staff yn gwbl hyddysg gyda dim ond rhwng 17 ac 28 y cant o gyflogwyr dysgu gydol oes ledld y DU yn adrodd bod ganddynt staff â bylchau sgiliau. Mae modd gweld y dadansoddiad cenedlaethol o fylchau sgiliau ar draws y sector dysgu gydol oes yn y tabl isod.

Bylchau sgiliau

	Canran o gyflogwyr dysgu gydol oes sy'n adrodd bylchau sgiliau	Bylchau sgiliau fel canran o'r cyfanswm yng nghyflogaeth dysgu gydol oes
Lloegr	21	6
Gogledd Iwerddon	20	3
Yr Alban	28*	7
Cymru	17	3

Ffynonellau: Lloegr, Arolwg Cenedlaethol Sgiliau Cyflogwyr 2009; Gogledd Iwerddon, Arolwg Monitro Sgiliau 2009; Yr Alban, Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yr Alban 2008 * rhaid trin y data gyda gofal, gan nad yw'n gwbl gadarn yn ôl meini prawf Futureskills Scotland ei hun; Cymru, Sgiliau Dyfodol Cymru 2005

Bylchau sgiliau a nodwyd drwy arolwg ASS 2009 LLUK



Ffynhonnell: Arolwg ASS Dysgu Gydol Oes yn y DU, sylfaen 374. (Enghraifft: adroddodd 40.9 y cant o gyflogwyr fod "hyrwyddo a marchnata'r sefydliad" yn fwllch sgiliau o fewn eu gweithlu presennol.)


Adran 7: Rhag-weld yr Hyn sydd O'n Blaen

7.1 Rhagamcaniadau Working Futures

Yn ôl rhagamcaniadau Working Futures IER, mae disgwyl i lefelau cyflogaeth yn y sector dysgu gydol oes gynyddu gan tua 3.5 y cant rhwng 2007 a 2017, o'u cymharu â 6.2 y cant ar draws pob sector. Y rhagamcan yw bydd y codiad mewn cyflogaeth yn uwch ar draws pob sector nag yn y sector dysgu gydol oes, ac eithrio yn yr Alban, lle disgwylir i'r codiad yn lefel y staff fod yn debyg i'r codiad yn yr economi yn ei chrynswth. Rhagwelir bydd angen disodli tua 40 y cant o'r gweithlu dysgu gydol oes ledled y DU yn ystod y deng mlynedd nesaf oherwydd ymddeoliadau.

7.2 Sgiliau'r Dyfodol

Sgiliau'r dyfodol a nodwyd drwy arolwg ASS 2009 LLUK



Ffynhonnell: Arolwg ASS Dysgu Gydol Oes yn y DU, sylfaen 395. (Er enghraifft: adroddodd 39.7 y cant o gyflogwyr fod "gwaith partneriaeth" yn debygol o fod sgil roedd ei angen yn y dyfodol.)

7.3 Sefyllfaoedd Posibl y Dyfodol

Mae'n anochel y bydd y gostyngiad mewn arian cyhoeddus a ragwelir yn ystod y pedair blynedd nesaf a'r tu hwnt yn cyflymu diwygio'r sector dysgu gydol oes. Scenario tebygol yw creu un fframwaith bwaol a fyddai'n ystwytho safonau i un set gyffredin o sgiliau a chymwysedau, wrth roi mwy o hyblygrwydd i unigolion o ran cynnydd gyrfa ar hyd llwybrau lluosog, a thrwy hynny cynyddu proffesiynoliaeth ar draws y sector. Byddai'r fframwaith yn caniatáu ar gyfer ymgorffori gwahaniaethau daearyddol a chenedlaethol er mwyn cefnogi gofynion sgiliau gwahanol, ar yr un pryd â gadael i gyflogwyr gynllunio am weithgarwch penodol i ddatblygu'r gweithlu.

Er y bydd integreiddio ar draws y sector yn gyrru datblygiadau yn y dyfodol, bydd pob rhan o'r sector yn wynebu heriau penodol. Bydd gwirfoddolwyr yn dechrau chwarae rhan arwyddocaol wrth gyflwyno gwasanaethau, tra bydd newidiadau yng ngweithgareddau darparwyr yn gofyn am arweinyddiaeth strategol i gyflwyno profiadau dysgu ystyrlon ar gyfer cymuned o ddysgwyr sy'n fwyfwy amrywiol.

Adran 8: Casgliadau a Blaenoriaethau Sgiliau

Mae'r blaenoriaethau sgiliau a nodwyd ar gyfer y sector dysgu gydol oes ledled y DU yn debyg i'r rhai a nodwyd yn 2009 (LLUK 2010), er bod rhaid eu hystyried yn yr hinsawdd economaidd a gwleidyddol sy'n newid. Y blaenoriaethau yw:

- Cydweithredu, gwaith partneriaeth, gan gynnwys ennyn diddordeb cymunedau
- Sgiliau mewn perthynas â defnyddio e-dechnoleg
- Sgiliau rheoli
- Sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd yn ogystal â sgiliau TGCh
- Sgiliau Cymraeg ledled Cymru

- Sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol a TGCh
- Sgiliau mewn perthynas ag arweinyddiaeth a chynllunio strategol

8.1 Argymhellion ar gyfer cyflogwyr ym maes dysgu gydol oes

Mae modd ymdrin ag effaith y materion hyn drwy greu tirlun lle bydd gwahanol ymagweddau at feithrin sgiliau yn cael eu hwyluso, eu hannog a'u ledled y DU:

- Barhau i gynyddu cydweithrediad a gwaith partneriaeth i rannu arfer effeithiol a manteision ar arbedion graddfa. Mae angen i'r sector dysgu gydol oes wella cysylltiadau a rhyngwynebau ymhlith sectorau er mwyn sicrhau bod y sector yn gweithredu fel un system.
- Datblygu mwy o gyrsiau byr, hyfforddiant mewn pytau bach, a mynediad ar-lein i ddysgwyr, wrth barhau i sicrhau bod gan staff y sgiliau i gyflwyno a chefnogi'r dulliau newydd hyn.
- Parhau i wella ansawdd dulliau o nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad staff – gall Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fod yn ddefnyddiol yma.
- Canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, er gwaethaf y sefyllfa economaidd bresennol, er mwyn cyd-fynd â chyflymder newid a pharatoi'r gweithlu dysgu gydol oes i gefnogi anghenion sgiliau gweddill y gweithlu a gyrru adferiad economaidd y DU gyfan.
- Parhau i sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn polisi ac arfer gweithio – mae gweithlu amrywiol mewn sefyllfa well i fodloni gofynion poblogaeth sy'n fwyfwy amlddiwylliannol ac amrywiol.

Cyfeiriadau

Swyddfa'r Cabinet (2010), *Building the Big Society*

Sefydliad Siartredig Rheoli a'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (2010), *Managing an Aging Workforce: How employers are adapting to an aging labour market*

Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2009), *Skills for Growth: The national skills strategy*

Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2010), *Skills for Sustainable Growth*

Department for Employment and Learning NI (2006), *Success Through Skills*

Department for Employment and Learning NI (2007), *Success Through Skills: Progress Report*

Dysgu Gydol Oes yn y DU (2007), *Sector Skills Agreement: Stage 1 – Skills Needs Assessment*

Dysgu Gydol Oes yn y DU (2010), *Sector Skills Assessment 2009, adroddiad am y DU gyfan*

Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus Oedolion (2009), *Inquiry into the Future for Lifelong Learning, Thematic Paper 3: Migration, Communities and Lifelong Learning*

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2009), *Labour Force Survey, four quarter average 2009*

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2010), *Bwletin Ystadegol: Ystadegau'r Farchnad Lafur, Medi 2010*

Llywodraeth yr Alban (2007), *Skills for Scotland: A Lifelong Skills Strategy*


Llywodraeth yr Alban (2010), *Skills for Scotland: Accelerating the Recovery and Increasing Sustainable Economic Growth*

Ystadegau i Gymru (2009), *Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2009*

Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2009), *Information to Intelligence: A Common LMI Framework for Sector Skills Councils*

Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2010), *Ambition 2020: World Class Skills and Jobs for the UK: The 2010 Report*

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth*



Skills for Learning Professionals

Lifelong Learning UK

BELFAST

2nd Floor, Midtown Centre, 25 Talbot Street, Cathedral Quarter,
Belfast, BT1 2LD
Ffôn: 0870 050 2570 Ffacs: 02890 247 675

CAERDYDD

Sophia House, 28 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ
Ffôn: 029 2066 0238 Ffacs: 029 2066 0239

CAEREDIN

CBC House, 24 Canning Street, Edinburgh, EH3 8EG
Ffôn: 0870 756 4970 Ffacs: 0113 229 8051

LEEDS

4th Floor, 36 Park Row, Leeds, LS1 5JL
Ffôn: 0870 300 8110 Ffacs: 0113 242 5897

LLUNDAIN

Centurion House, 24 Monument Street, London, EC3R 8AQ
Ffôn: **0870 757 7890** Ffacs: **0870 757 7889**

E-bost: enquiries@lluk.org

www.lluk.org/ssa

Ref: RES/01_2011/08



Part of the Skills for Business network of
25 employer-led Sector Skills Councils